

CYNNAL

Y CYNLLUN ABSENOLDEB TADOLAETH

Awst 2010



Y CYNLLUN ABSENOLDEB TADOLAETH

Tadolaeth – Absenoldeb a Thâl

Fe fydd yr hawl newydd i absenoldeb a thâl tadolaeth yn rhoi hawl i weithwyr cymwys gymryd cyfnod o absenoldeb â thâl yn dilyn genedigaeth plentyn i ofalu am y plentyn neu i gefnogi'r fam.

Dyddiadau Cychwyn

Bydd gweithwyr y mae disgwyl i'w plentyn gael ei eni ar 6 Ebrill 2003, neu ar ôl hynny, yn elwa o'r hawl newydd yma.

Disgwylir i weithwyr gyflwyno cais i fod i ffwrdd ar Absenoldeb Tadolaeth ar y ffurflen yn Atodiad 1. Dylid cyflwyno'r ffurflen i'r Rheolwr Llinell o leiaf 7 diwrnod cyn dyddiad tebygol y geni.

Bod yn gymwys

Er mwyn cael yr hawl i absenoldeb tadolaeth, rhaid i weithwyr fodloni'r amodau isod. Rhaid iddynt

- ♦ gael neu ddisgwyl cael cyfrifoldeb am fagu'r plentyn **ac/neu**
- ♦ bod yn dad biolegol i'r plentyn, neu'n wŵr neu'n gymar i'r fam
- ♦ bod wedi gweithio yn barhaus i'r Cwmni am 26 erbyn y 15^{fed} wythnos cyn disgwylir geni'r babi.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r hawl i 'Absenoldeb tadolaeth a thâl' yn agored i ofalwyr dynodedig *ee, teulu estynedig*, ble nad oes unrhyw un sy'n cydymffurfio â'r gofynion uchod ar gael.

Gall y Cwmni ofyn i weithwyr ddarparu hunan dystysgrif i dystio eu bod yn ateb yr amodau hyn.

Hyd Absenoldeb Tadolaeth

Mae gan weithwyr cymwys hawl i **bythefnos di-dor** o absenoldeb tadolaeth.

Gallent ddewis i gychwyn eu habsenoldeb

- ♦ o ddyddiad genedigaeth y plentyn (pa un ai yw hyn yn gynharach neu'n hwyrach na'r disgwyl), **neu**
- ♦ ar ôl nifer arbennig o ddyddiau neu wythnosau wedi dyddiad geni'r plentyn (pa un ai yw hyn yn gynt neu'n hwyrach na'r disgwyl), **neu**
- ♦ o ddyddiad penodol.

Gall absenoldeb gychwyn ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos ar enedigaeth y plentyn neu ar ôl yr enedigaeth, ond rhaid ei gwblhau:

- ♦ o fewn 56 diwrnod o ddyddiad geni'r plentyn, **neu**
- ♦ os yw'r plentyn yn cael ei eni'n fuan, o fewn y cyfnod o'r gwir ddyddiad geni hyd at 56 diwrnod wedi'r dyddiad geni disgwylidig.

Dim ond un cyfnod absenoldeb sydd ar gael. Ni fydd hawl i fwy o absenoldeb os oes mwy nag un plentyn yn cael ei eni fel canlyniad i'r un beichiogrwydd.

Diwrnodau Gŵyl y Banc

Pe bai diwrnod Gŵyl y Banc yn digwydd o fewn y “pythefnos” Absenoldeb Tadolaeth, ni ychwanegir diwrnod at y cyfanswm. Mae diwrnodau Gŵyl y Banc yn cael eu cyfrif fel diwrnodau arferol.

Tâl yn ystod Absenoldeb Tadolaeth

Fe fydd gan weithwyr hawl i dâl llawn, am gyfnod o bythefnos di-dor.

Hunan Dystysgrif

Rhaid i weithwyr roi hunan dystysgrif wedi'i chwblhau fel tystiolaeth o'u hawl i gael TTS (Gweler Atodiad 1).

Buddion Contractiol

Mae gan weithwyr hawl i'w hamodau a'u telerau gwaith arferol.

Dychwelyd i'r gwaith wedi absenoldeb tadolaeth

Caiff gweithwyr ddychwelyd i'r un swydd wedi absenoldeb tadolaeth.

Diogelu rhag diswyddo a thrin yn annheg

Fe fydd gweithwyr yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu trin yn annheg neu eu diswyddo am gymryd, neu am ofyn am absenoldeb tadolaeth. Dylai gweithwyr sy'n credu eu bod wedi cael eu trin yn annheg wneud cwyn a dilyn trefn gwyno'r Cwmni.



Hunan Dystysgrif: Absenoldeb Tadolaeth Statudol

(I'w chyflwyno i'r Rheolwr Llinell o leiaf 7 diwrnod cyn dyddiad tebygol y geni)

Eich dyddiadau ar gyfer absenoldeb a thâl

Disgwylir geni'r babi ar __ / __ / __

Os yw'r babi eisoes wedi'i eni, rhowch ddyddiad y diwrnod hwnnw __ / __ / __

Hoffwn i'm habsenoldeb gychwyn ar __ / __ / __

Eich datganiad

Enw Llawn _____

Adran _____

Rhif PAY _____

Rhaid i chwi allu ticio'r tri bocs i gael absenoldeb tadolaeth.

Cadarnhaf

- Fy mod
 - yn dad biolegol i'r plentyn, **neu**
 - yn briod â'r fam, **neu**
 - yn byw gyda'r fam mewn perthynas deuluol barhaus, ond nad ydwyf yn aelod o'r teulu agos,

neu

 - yn absenoldeb pob un o'r uchod, 'rwyf wedi cael fy enwebu gan y fam i fod yn ofalwr dynodedig. (Nodwch natur eich perthynas â'r fam:)
- Mae gennyf gyfrifoldeb am fagwraeth y plentyn.
- Byddaf yn cymryd amser o'r gwaith i gefnogi'r fam neu i ofalu am y plentyn.

Llofnod : _____ Dyddiad: _____

Ar ôl llenwi'r ffurflen hon dylid ei hanfon i'r Rheolwr Llinell